YSGOL GYMRAEG CASTELL-NEDD

Pennaeth: Mr D.T. Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
Ffôn: 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
e-bost: castellnedd.gyn@npt.gov.uk
pennaeth.castellnedd.gyn@npt.gov.uk

Ionawr 6ed / January 6th, 2010.

1. Er mwyn sicrhau gwelliannau pellach yn y sustemau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, heddiw mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn gwasanaeth anfon negeseuon testun fydd yn darparu gwybodaeth gyfredol a chyflym i rieni ar faterion sy'n ymwneud â chau'r ysgol, gohirio clybiau/gêmau, ac ati. Rydym yn obeithiol y bydd y gwasanaeth hwn ar gael i ni mor gynnar ag yfory! Er mwyn ein galluogi i anfon negeseuon testun at **bob** rhiant, mae'n bwysig dros ben fod pob rhiant yn sicrhau bod eu rhifau ffôn symudol cyfredol gyda ni ar ffeil yr ysgol. Fe fyddwn yn profi'r sustem o fewn y dyddiau nesaf . . . felly os na dderbyniwch neges destun oddi wrthom, fe allwch gymryd hi'n ganiatаol nad yw eich rhif cyfredol gyda ni!! I'r rheiny sydd heb ffônau symudol, fe fydd ein trefniadau presennol yn parhau!! Yn ogystal, fe allwch dderbyn gwybodaeth am ysgolion sydd wedi cau yn sgîl tywydd garw wrth wrando ar 'Swansea Sound'/'The Wave' (96.4 fm / 1170 mw) neu Radio Cymru (92 – 105 fm).

2. Diolch yn arbennig i rieni'r Meithrin a'r Derbyn am eu cydweithrediad y bore 'ma gyda'r newid mewn trefniadau'r dydd. Fe'm gorfodwyd i gau'r ysgol i'r plant lleiaf gan fod pump athro/athrawes ac un cynorthwy-ydd addysgu wedi methu teithio o'u cartrefi yn Sir Gâr a Sir Frycheiniog wledig.

3. Fe gofiwch o'r cylchlythyr diwethaf (14.12.09) am y ddau ddiwrnod Hyfforddiant Mewn-Swydd nesaf:

Dydd Gwener, Ionawr 15fed;
Dydd Llun, Chwefror 22ain.

1. In order to further improve lines of communication between home and school, we have, this morning, bought into a text messaging service that will provide parents with immediate and up-to-date information on matters such as school closures, unavoidable cancellation of after-school club/sports matches, etc. We are hopeful that this new service will be available to us from as early as tomorrow morning. So as to enable our texts to reach ***every*** *parent, it is vitally important that you ensure that we have your* ***current*** *mobile phone number on file at school. We will be testing this system in the next few days . . . so if you don't receive a text from us, you can assume that we don't have your current number!! For those of you without mobile phones, our current 'tried and tested' arrangements will apply!! You can also tune in to Swansea Sound/The Wave (96.4 fm / 1170mw) or Radio Cymru (92 – 105 fm) for information regarding school closures due to snow/ice.*

2. Thanks in particular to parents of Nursery and Reception children for your cooperation this morning with the change in arrangements. This was completely unavoidable, in light of the fact that ***five*** *teachers and one classroom assistant were unable to venture out of their homes in rural Carmarthenshire and Breconshire.*

3. As reported in our last newsletter (14.12.09), don't forget our next two In-service training days:

Friday, January 15th;
Monday, February 22nd.